

**M**ae Eglwys Rhoscrowdder yn adeilad cymhleth, mewn cymuned a ddaeth i ddiwedd anhapus. Yn 1993 achosodd ffrwydrad mewn ffatri purfa olew gyfagos ddifrod i adeiladau yn lleol, gan gynnwys i'r eglwys, a gafodd ei chau yn 2004, ac a basiodd i ofal y Friends yn 2005. Mae ganddi gysegriad prin, Sant Decuman, a gafodd, fe greidr, ei eni yma yn y 7fed ganrif, ond ymsefydlodd yn y pen draw ger Watchet yng Ngwlad yr Haf, lle y cafodd ei ferthyru trwy ddiwyddio yn AD 706, gyda'i ben yn cael ei ddychwelyd yn y diwedd i'w fan geni. Dim ond un eglwys arall, a dau gapeliaeth sydd ddim yn bodoli bellach, a roddwyd dan ei nawdd.



## Hanes

Dyddiwyd y corff a'r gangell i'r 13eg–14eg ganrif, gyda'r aleau croes a'r capeli wedi eu hychwanegu tua diwedd yr olaf, ynghyd â'r tŵr caerog, wedi ei godi dros ale groes y de. Er nad oeddynt yn siantriau gwaddoledig, cysylltwyd y capeli â theuluoedd lleol blaenllaw, y Perrots o Eastington, y mae eu tŷ tŵr 14eg ganrif hynod yn goroesi gerllaw, a'r Whites o Hentland. Y mae delw mawr hardd o wraig, mwy na maint go iawn, o'r 14eg ganrif wedi goroesi yn y capel de ddwyreiniol. Yn 1909 nodwyd tebygrwydd ag un Aveline, Iarlles Caersallog (m.1273/4) yn Abaty Westminster, gan y pensaer W.D. Caroe, ac mae'n debyg ei fod yn cynrychioli aelod o deulu Beneger o Bangeston gerllaw. Roedd un o'r teulu hwn, Ralph, yn rheithior Pwllcrochan sydd drws nesaf, lle y mae ei ddelw yn goroesi, a lle yr ailadeiladodd yr eglwys yn 1342. Mae'n debyg mai'r Benegers oedd yn gyfrifol gan fwyaf am lawer o'r gwaith yn Rhoscrowdder, gan gynnwys y Beddrod Pasg yn y gangell, cymhleth ar un adeg. Yr oeddent wedi ymsefydlu ym Mangeston erbyn 1172, ac mae'n bosib iddynt roi'r fedyddfaen wreiddiol o garreg Caen, wedi ei fewnforio o Normandi (daeth yr ail fedyddfaen, hefyd yn Normanaidd, o Eglwys Pwllcrochan wedi iddi gael ei chau yn 1942).

Erbyn y 15fed ganrif ymddengys bod gan yr eglwys gysegr gymhleth ar gyfer Sant Decuman, fwyaf tebyg yn cadw ei ben, os yw'r gris addurnedig, wedi ei hailosod ar fynedfa ale croes y gogledd, yn unrhyw arweiniad. Yr oedd W.D. Caroe yn bendant bod hwn yn wreiddiol yn rhan o waelod cysegr, wedi ei ddinistrio yn ystod cynnwrf y Diwygiad. Ar ben y tŵr ceir blaenau obelisc, wedi eu hychwanegu yn y 18fed ganrif. Adnewyddwyd yr eglwys yn 1852, ac eto yn 1869–70, gan Frederick Wehnert o Hwlfordd gerllaw. Cafodd ei drwsio, yn ysgafn, yn 1909–10 gan W.D. Caroe, ac yna ei drwsio eto wedi i'r Burfa Olew wneud iawn am ddifrod y ffrwydrad yn 1993.



Coflech o'r 18fed ganrif



Delw o'r 14eg ganrif

## Yr eglwys heddiw

Daethpwyd â llawer o nodweddion diddorol o eglwys eraill. Credir i'r bylau arfog, a ffigur swynol o Grist yn atgyfodi, ddod o Angl, fwyaf tebyg o fedd sydd bellach wedi diflannu, pan adnewyddodd R.K. Penson yr eglwys honno tua'r un adeg â'r gwaith yma yn 1852. Daeth y gofadail o 1716 i aelod o deulu Powell o Greenhill, yn y corff, o Bwllcrochan.



Step ale groes y gogledd



## Eglwys cyfagos sydd hefyd dan ofal y Friends

**Hodgeston** Eglwys ganoloesol gyda thŵr tal 'Sir Benfro'. Cerfio cain ar y sedilia a'r cawg, fwyaf tebyg yn dyddio o'r 14eg ganrif (eglwys ar agor).

**Sant Oudoceus, Llan-dawg** Wedi ei hachub rhag mynd yn adfail yn 2003. Delw o'r 14eg ganrif, carreg arysgrifedig o'r 6ed ganrif ac allor idiosyncratig o dderw cerfiedig o 1882 (eglwys ar agor).



### Pwy yw'r Friends?

Mae'r Friends yn caru eglwysy sydd heb eu caru. Hebom, byddent yn cael eu dymchwel, eu gwerthu fel tai, neu eu gadael yn angof. Ers 1957 rydym wedi ymgyrchu i eglwysy sydd ddim yn cael eu defnyddio i gael eu cadw, fel "pregethau mewn carreg".

Yng Nghymru, ariennir ein gwaith gan Cadw a'r Eglwys yng Nghymru. Ond yn Lloegr rydym yn dibynnu ar haelioni cyfranwyr ac aelodau.

### Beth ydyn ni'n ei wneud?

Yr ydym yn cadw'r eglwysy hyn er mwynhad y gymuned leol ac ymwelwyr. Rydym yn eu gwneud yn gadarn yn erbyn y gwynt a'r dŵr, yn ail osod toeau a ffenestri, yn trwsio peipiau glaw a gwaith carreg. Ac rydym yn gwneud yn siŵr eu bod yn agored, neu bod ceidwaid cyfeillgar lleol ar gael i gadw llygaid arnynt. Nid digyfaill mwyach!

Os gwelwch yn dda, fydddech yn fodlon ymuno a'n helpu? Mae eu cynnal a'u cadw yn her anferth. Yr ydym yn dibynnu ar haelioni pobl fel chi...

### Ymuno

Ewch ar y we i ymweld â friendsoffriendlesschurches.org.uk. Wrth ymaelodi byddwch yn helpu i achub eglwysy. Yn ogystal, byddwch yn derbyn tri chylchlythyr hardd, yn llawn o wybodaeth am brosiectau cadwraeth, sgysiau, cyfarfodydd a llyfrau.




### Cyfrannu

Afonwch sic, yn daladwy i 'Friends of Friendless Churches' at FoFC, 70 Cowcross Street, London EC1M 6EJ.

Neu ewch at y wefan.


Yr ydym yn cymryd gofal i gadw ein costau gweinyddiaeth yn isel iawn. Â cyfraniadau yn uniongyrchol tuag at achub ac atgyweirio eglwysy. Gallai cymynrodd wneud gwahaniaeth fwy fyth. Siaradwch â'r Cyfarwyddwr ar 020 7236 3934.

[www.friendsoffriendlesschurches.org.uk](http://www.friendsoffriendlesschurches.org.uk)

Dewch o hyd i ni ar y cyfryngau cymdeithasol   

Rhif Elusen Gofrestredig : 1113097

 **FRIENDS OF FRIENDLESS CHURCHES** 



# FRIENDS OF FRIENDLESS CHURCHES



*Eglwys Sant Decuman  
Rhoscrowther  
cyflwyniad i'w hanes*



**Sant Eloi, Llan-lwly** Capel Cymreig bychan wedi ei adfywio a'i adnewyddu yn 1926 gan John Coates Carter gan ddefnyddio dulliau a defnyddiau lleol, a egwyddorion SPAB i'w 'adnewyddu' i fframwaith cyn-Ddiwygiad. Gwaith coed trawiadol, a gwrthgefn bron yn blentynnaidd yn ei onestrwydd (eglwys ar agor).



**Sant Andras Apostol, Y Beifil** Eglwys ddiymhongar yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn cadw ei thu mewn atgofus yn ddiweddar yn y cyfnod Sioraidd. Pulpud wedi ei beintio a'i banelu, desg ddarllen a seddi caeëdig (allwedd ar gael gerllaw).

